Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cynyddu effaith y rhwydwaith What Works ledled y DU

**Emma Taylor-Collins a Dan Bristow**

Mawrth 2020

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus i gael ac i weithredu ar dystiolaeth annibynnol gadarn ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio. Mae'r Ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno ac i ddefnyddio tystiolaeth bresennol ac i ganfod bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar lywodraeth ond mae'n cydweithio'n glos â llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu meddwl gwreiddiol ynglŷn â sut i roi sylw i heriau polisi mewn iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ganfod tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaeth llunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn gwella gallu ymchwilwyr i wneud ymchwil sy'n cael effaith sy'n berthnasol i bolisi.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk


## Cyllidwyr craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sydd â'r nod o feithrin cysylltiadau rhyngwladol cryf ond sy'n pwysleisio ei hymroddiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England ynghyd i gynyddu cyfraniad pob cyngor ac i greu'r amgylchiadau gorau i alluogi ymchwil ac arloesi i ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys


Crynodeb 4

Cyflwyniad 5

Gwerthuso 7

- Effeithiau ar Ganolfannau What Works 8
- Yr effaith ar lunwyr polisi ac ymarferwyr 10
- Bord gron ar gydweithredu ac ymgysylltu â'r cenhedloedd datganoledig 11

Casgliadau a chamau nesaf a awgrymir 13

Atodiad: Disgrifiadau o Uwchgynhadledd 16

- Yr uwchgynhadledd digartrefedd ieuenctid 16
- Yr uwchgynhadledd blynyddoedd cynnar 17
- Plant a phobl ifanc: defnyddio ymchwil a thystiolaeth i wireddu newid 18
- Yr Uwchgynhadledd iechyd meddwl ieuenctid 20
- Perfformiad economaidd lleol 21
- Bord gron What Works 23

# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a ddysgwyd yn sgil prosiect Cronfa Strategol yr ESRC o dan arweiniad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Queen's Belfast, What Works yr Alban, a'r Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol.
- Drwy gyfres o uwchgynadleddau lle'r oedd llunwyr polisi ac ymarferwyr yn bresennol, ynghyd â thystiolaeth gan y rhwydwaith What Works, nod y prosiect hwn oedd:
    - Annog mwy o gydweithredu ymhlith Canolfannau What Works.
    - Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith What Works yn y cenhedloedd datganoledig.
- Cynhaliwyd pum uwchgynhadledd yn 2018-19, yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ddigartrefedd ieuenctid, blynyddoedd cynnar, iechyd meddwl ieuenctid, canlyniadau plant a phobl ifanc, a pherfformiad economaidd lleol. Cynhaliwyd bord gron terfynol gyda Chyfarwyddwyr Canolfannau What Works, Cadeirydd Gweithredol yr ESRC, Cyfarwyddwr Ymchwil yr ESRC, Cyfarwyddwr Cenedlaethol What Works a rhanddeiliaid allweddol eraill i drafod y canfyddiadau a ffyrdd o adeiladu arnynt.
- Dangosodd yr uwchgynadleddau fod Canolfannau What Works yn wynebu nifer o heriau wrth ymgysylltu â llunwyr polisi ac ymarferwyr yn y gwledydd datganoledig.
- Disgrifiodd Canolfannau What Works yr uwchgynadleddau fel digwyddiadau 'defnyddiol dros ben' neu 'ddefnyddiol iawn' a dywedwyd eu bod wedi helpu i feithrin perthnasoedd o fewn y rhwydwaith.
- Dangosodd yr uwchgynadleddau fod llawer o ddiddordeb mewn tystiolaeth What Works yn y cenhedloedd datganoledig.
- Disgrifiwyd hwy gan y llunwyr polisi a'r ymarferwyr a gymerodd ran fel rhai 'defnyddiol dros ben' neu 'ddefnyddiol iawn'.
- Roedd yr ymwybyddiaeth o Ganolfannau What Works ymhlith cynulleidfaoedd datganoledig yn gymharol isel cyn yr uwchgynadleddau. Bu cynnydd yn yr ymwybyddiaeth hon o ganlyniad.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn bwriadu defnyddio'r hyn roeddent wedi'i ddysgu yn yr uwchgynhadledd i lywio eu hymarfer.
- Gallai ffyrdd o annog mwy o gydweithredu rhwng Canolfannau What Works gynnwys cyfuno adnoddau (e.e. treialon ar y cyd), rhannu cyngor a dysgu (e.e. ar gyfer Canolfannau newydd), a gwella cyrhaeddiad Canolfannau (e.e. galluogi cynulleidfaoedd i gael gafael ar dystiolaeth yn rhwydd o sawl Canolfan).
- Mae'r buddiannau i Ganolfannau What Works sy'n gweithio yn y cenhedloedd datganoledig yn cynnwys y cyfle i ddysgu gan eraill ac i fanteisio ar wahaniaethau mewn dadansoddiadau cymharol a threialon.

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a ddysgwyd yn sgil prosiect Cronfa Strategol yr ESRC o dan arweiniad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Queen's Belfast, What Works yr Alban, a'r Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol. Nod y prosiect oedd cynyddu effaith y rhwydwaith What Works ledled y DU drwy gyfres o uwchgynadleddau a oedd yn cynnwys Canolfannau What Works a llunwyr polisi ac ymarferwyr o'r cenhedloedd datganoledig.

Mae gan y rhan fwyaf o Ganolfannau What Works gylch gwaith i weithio ar lefel y DU ond yn aml nid yw llunwyr polisi ac ymarferwyr yn y cenhedloedd datganoledig yn ymwybodol o'r allbynnau maent yn eu cynhyrchu. Mae llawer yn edrych ar y Rhwydwaith What Works fel cynllun llywodraeth y DU ac nad yw'n berthnasol i'w hanghenion tystiolaeth hwy.

O ganlyniad, nid yw gweinyddiaethau datganoledig yn gwneud y gorau o'r dystiolaeth a gynhyrchir gan y rhwydwaith, ac mae Canolfannau What Works yn colli cyfleoedd i roi prawf ar yr hyn sy'n gweithio y tu allan i Loegr. Mae Swyddfa'r Cabinet a rhai Canolfannau What Works wedi hyrwyddo'r dull What Works yn rhyngwladol. Roedd yr uwchgynadleddau yn ymdrech i ategu hyn drwy gynyddu gwelededd ac effaith y Rhwydwaith What Works ledled y DU drwy:

1. Annog cydweithredu rhwng Canolfannau What Works.
2. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith What Works ymhlith llunwyr polisi ac ymarferwyr yn y cenhedloedd datganoledig.

Cynhaliwyd pum uwchgynhadledd yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban rhwng Tachwedd 2018 a Mehefin 2019 (Tabl 1). Roedd pob digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau gan o leiaf ddwy Ganolfan What Works, a throsolwg byr o'r rhwydwaith What Works. Cymerodd cyfanswm o naw Canolfan What Works a thua 330 o gynrychiolwyr ran ynddynt.

Cynhaliwyd Bord Gron yn Llundain ym mis Hydref 2019 ac a oedd yn cynnwys Canolfannau What Works, yr ESRC, Swyddfa'r Cabinet, a chynrychiolwyr o'r gweinyddiaethau datganoledig, i rannu dysgu o'r pum uwchgynhadledd ac i drafod sut y gall y rhwydwaith What Works ymestyn ei gyrhaeddiad yn y cenhedloedd datganoledig, a sut y gellid annog a chefnogi mwy o gydweithredu rhwng Canolfannau What Works. Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r drafodaeth yn y ford gron.

Ceir crynodeb o bob uwchgynhadledd a'r ford gron yn yr Atodiad.

### Tabl 1: Yr uwchgynadleddau

| Dyddiad | Pwnc | Lleoliad | Canolfannau What Works sy'n cyflwyno | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|---|---|---|
| Tachwedd 2018 | Digartrefedd ieuenctid | Casnewydd, Cymru | Y Ganolfan Effaith Digartrefedd<br>Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru<br>What Works - Llesiant | 60 |
| Chwefror 2019 | Blynyddoedd Cynnar | Belfast, Gogledd Iwerddon | Y Sefydliad Gwaddol Addysgol<br>Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar<br>NICE | 80 |
| Ebrill 2019 | Dulliau seiliedig ar le yn achos canlyniadau plant a phobl ifanc | Glasgow, Yr Alban | What Works yr Alban<br>Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru | 65 |
| Mai 2019 | Iechyd meddwl ieuenctid | Belfast, Gogledd Iwerddon | Canolfan What Works ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant<br>What Works – Llesiant<br>NICE | 100 |
| Mehefin 2019 | Perfformiad economaidd lleol | Caerdydd, Cymru | What Works – Twf Economaidd Lleol<br>Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru | 25 |

# Gwerthuso

Er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd yr uwchgynadleddau i gyflawni nodau'r prosiect, rydym wedi defnyddio cyfuniad o arolygon a chyfweliadau cyn ac ar ôl y digwyddiad â chyflwynwyr o'r Canolfannau What Works a llunwyr polisi ac ymarferwyr a gymerodd ran ynddynt (gweler Tabl 2).

### Tabl 2: Dulliau gwerthuso

| Nod y prosiect | Dulliau a ddefnyddiwyd | Cyfraddau ymateb (pan yn hysbys) |
|---|---|---|
| Cynyddu cydweithrediad rhwng Canolfannau What Works | Cyfweliadau ffôn cyn y gynhadledd â chyflwynwyr Canolfannau What Works | 85% |
| | Holiadur ar-lein ar ôl yr uwchgynhadledd (yn syth ar ôl y digwyddiad) â chyflwynwyr Canolfannau What Works | 79% |
| | Cyfweliadau ffôn ar ôl y gynhadledd (2-3 mis ar ôl pob digwyddiad) â chyflwynwyr Canolfannau What Works | 62% |
| Gwella cyrhaeddiad pob rhwydwaith What Works yn y cenhedloedd datganoledig | Holiadur ar-lein cyn yr uwchgynhadledd â'r sawl sydd wedi cofrestru | 39% |
| | Papur a holiaduron ar-lein ar ôl yr uwchgynhadledd â'r sawl oedd yn bresennol (ar ddiwedd yr uwchgynhadledd ac yn syth wedyn) | 28% |
| | Cyfweliadau ffôn ar ôl y gynhadledd (2-3 mis yn ddiweddarach) â sampl o'r rhai oedd yn bresennol | 45%[1] |

[1] Cytunodd 45% o'r rhai a gytunodd i gael eu cyfweld yn yr holiadur dilynol ran mewn cyfweliad diweddarach.

Drwy'r ddefnyddio'r dulliau hyn rydym wedi ymchwilio i effeithiau uniongyrchol yr uwchgynadleddau yn y tymor byr (yn syth ar eu hôl) ac yn y tymor hir. Roeddem wedi bwriadu cymharu ymatebion pob cyfranogwr i'r arolwg cyn ac ar ôl y digwyddiad. Ond, fodd bynnag, er bod 111 o ymatebwyr wedi rhoi eu cyfeiriad e-bost yn yr arolwg cyn y digwyddiad, dim ond 23 ohonynt wnaeth hynny yn yr arolwg ar ôl yr uwchgynhadledd. Roedd y nifer hwn yn rhy isel i allu dod i unrhyw gasgliadau ystyrlon ar ôl dadansoddi'r canlyniadau cyn / ar ôl, felly rydym wedi cyhoeddi ymatebion cyfunol yn hytrach na dadansoddi'r data o ymatebion cyn ac ar ôl y digwyddiad.

# Effeithiau ar Ganolfannau What Works

Roedd Canolfannau What Works wedi gobeithio defnyddio'r uwchgynadleddau i ddysgu mwy am Ganolfannau What Works eraill, codi eu proffil yn y cenhedloedd datganoledig, a llywio eu rhaglenni gwaith am y dyfodol.

Dywedodd mwyafrif sylweddol (80%) y **Canolfannau a gymerodd ran bod yr uwchgynadleddau wedi bod yn 'ddefnyddiol dros ben' neu'n 'ddefnyddiol iawn'**. Dywedodd y rhan fwyaf mai cyfle i wrando ar siaradwyr eraill oedd elfen fwyaf defnyddiol yr uwchgynhadledd. Roeddent yn teimlo hefyd eu bod wedi cyflwyno tystiolaeth a syniadau newydd i lunwyr polisi ac ymarferwyr, bod ystod eang o sefydliadau wedi'u cynrychioli ym mhob digwyddiad, a bod yr uwchgynadleddau yn dangos galw am ddigwyddiadau o'r fath yn y cenhedloedd datganoledig.

Gan fod pob uwchgynhadledd yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun, roedd y gynulleidfa ym mhob un yn wahanol ac roedd pob un yn cynnwys cyfuniad gwahanol o Ganolfannau What Works. Nid oedd adnoddau ar gael ar gyfer gwaith dilynol i helpu cyfranogwyr i ymgorffori'r dystiolaeth roeddent wedi ei chlywed yn eu sefydliadau eu hunain. Awgrymodd un Ganolfan:

> **Mewn cyfarfodydd yn y dyfodol mi fyddai'n ddefnyddiol cael sesiwn ar 'beth nesaf'. Wrth fynd i ddigwyddiadau fel hyn mi fyddaf yn aml yn clywed am syniadau a dulliau da iawn, a phobl (cyflwynwyr a chyfranogwyr) sy'n gyffrous iawn ynglŷn â gweithredu newid – fodd bynnag, anaml iawn y bydd y pethau hyn yn cael eu gweithredu'n ymarferol** (Canolfan What Works).

## Effaith ar ymgysylltu yn y cenhedloedd datganoledig

Cyn yr uwchgynadleddau, roedd y rhan fwyaf o Ganolfannau What Works wedi ymgysylltu rhyw gymaint â llunwyr polisi ac ymarferwyr yn y cenhedloedd datganoledig. Roedd hyn yn cynnwys gweithio â llywodraethau lleol a chenedlaethol ar addasu allbynnau Canolfan What Works ar gyfer y cenhedloedd datganoledig, siarad mewn digwyddiadau, darparu hyfforddiant, a chynghori sefydliadau lleol. Fodd bynnag, **nodwyd heriau wrth weithio mewn cenhedloedd datganoledig (eraill)**. Y cyfyngiad mwyaf cyffredin oedd diffyg cyllid

penodol i weithio yn y cenhedloedd datganoledig. Roedd gwneud cais am gyllid o'r fath wedi bod yn anodd, a hynny'n rhannol oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi yn y cenhedloedd datganoledig yn cael ei weld fel rhwystr rhag llunio cais cryf am gyllid. Roedd yn anodd rhoi blaenoriaeth i gael yr wybodaeth hon, yn enwedig i Ganolfannau What Works llai a'r rhai a oedd yn cymryd rhan mewn rhaglenni gwaith prysur i adrannau Whitehall a rhanddeiliaid eraill. Roedd hyn yn cael ei ddwysau gan ddiffyg 'llwybrau' naturiol at lunwyr polisi ac ymarferwyr yn y cenhedloedd datganoledig, a oedd yn golygu ei fod yn cymryd amser ac adnoddau staff i feithrin perthnasoedd o'r dechrau.

Er bod rhai enghreifftiau o'r uwchgynadleddau'n cryfhau perthnasoedd presennol â llunwyr polisi ac ymarferwyr, **nid oedd dim enghreifftiau o berthnasoedd cwbl newydd yn datblygu**. Unwaith eto, nodwyd diffyg cyllid i weithio yn y cenhedloedd datganoledig fel rheswm am hyn. Dywedodd un Ganolfan What Works wrthym er na fyddai eu cyllidwr yn gwrthwynebu iddynt gymryd rhan mewn digwyddiad un-tro, ni fyddent yn debygol o gefnogi ymgysylltu ar lefel fwy sylweddol. Dywedodd un arall fod eu model cyllido yn ei gwneud yn anodd iddynt gael sgyrsiau diddorol ag eraill hyd yn oed – mae angen i unrhyw ymgysylltu ag eraill droi i fod yn 'gynnig y gellir ei gyllido" yn eithaf sydyn.

Roedd rhai Canolfannau What Works wedi cael eu hysgogi gan y cwestiynau a'r trafodaethau yn yr uwchgynadleddau i feddwl mewn ffordd wahanol am rai agweddau ar eu gwaith. Disgrifiodd un sut yr oeddent wedi cael sgwrs mewn uwchgynhadledd ar gymharu cost effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau, a'u bod wedi gwneud rhagor o waith ar hynny o ganlyniad. Roedd un arall yn bwriadu ystyried a ddylai eu gweithgarwch lledaenu ar gyfer cyhoeddiad arfaethedig hefyd gynnwys cynulleidfaoedd datganoledig, rhywbeth nad oeddent wedi meddwl amdano cyn hynny.

## Effaith ar ymgysylltu â Chanolfannau What Works eraill

Dangosodd y gwerthusiad o'r uwchgynadleddau eu bod wedi **sbarduno trafodaethau rhwng Canolfannau What Works, gan roi cyfle i gryfhau perthnasoedd presennol ac i ffurfio rhai newydd**. Roeddent yn cael eu gweld fel cyfle nid yn unig i Ganolfannau What Works gael cyflwyno eu gwaith i gynulleidfaoedd newydd, ond hefyd i ddysgu gan Ganolfannau eraill oedd yn cymryd rhan:

> **Roedd yn braf clywed gan bobl sy'n ceisio ymgodymu â materion tebyg ac i weld y potensial i ddysgu o'r dystiolaeth sydd ar gael ac oddi wrth ein gilydd.** (Canolfan What Works)

Dywedodd un Ganolfan wrthym y gallent "dynnu llinell syth" o un o'r uwchgynadleddau at brosiectau ar y cyd a oedd wedi deillio'n uniongyrchol o'u cysylltiad â Chanolfan What Works roeddent wedi'i chyfarfod yno. Mewn uwchgynhadledd wahanol, disgrifiodd cyfwelai sut yr oedd clywed cyflwyniad gan Ganolfan What Works arall wedi sbarduno syniad ar sut maent yn mesur canlyniadau penodol, ac sydd wedi llywio eu gwaith.

Mae Canolfannau'n cydweithio mewn pob math o ffyrdd, o ymgysylltiad ymylol, fel adolygu gwaith ei gilydd fel cymheiriaid, i fod yn aelodau o fyrddau cynghori neu weithgorau, neu lunio ymatebion ar y cyd i un o ymgynghoriadau'r llywodraeth, i ymgysylltu mwy dwys fel dadansoddi data ei gilydd, rhannu gofod swyddfa, a datblygu prosiectau ar y cyd a cheisiadau am gyllid. Ond dywedwyd ei bod yn aml yn anodd dod o hyd i'r amser a'r adnoddau i ymgymryd â gweithgarwch ar y cyd yn ychwanegol at y prif raglenni gwaith roeddent yn cael eu hariannu i'w cyflawni. Cyfeiriodd rai hefyd at wahaniaethau mewn safonau tystiolaeth a'r mathau o dystiolaeth a ddefnyddiwyd ganddynt fel rhwystrau rhag cydweithredu.

# Yr effaith ar lunwyr polisi ac ymarferwyr

## Gwybodaeth am Ganolfannau What Works

Nid oes amheuaeth nad oedd yr uwchgynadleddau wedi cynyddu gwybodaeth am Canolfannau What Works ymhlith llunwyr polisi ac ymarferwyr yn y cenhedloedd datganoledig o sylfaen isel iawn. Nid oedd bron i chwarter (23%) y rhai a oedd wedi cwblhau'r arolwg cyn yr uwchgynhadledd wedi clywed am ddim un o'r Canolfannau a dim ond 14% a ddywedodd eu bod yn gwybod am bedair neu fwy o Ganolfannau. Dim ond 11% a ddywedodd eu bod wedi defnyddio tystiolaeth gan Ganolfannau What Works. Ar ôl yr uwchgynadleddau, dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr (48%) eu bod erbyn hyn wedi clywed am bedair neu fwy o Ganolfannau.

## Pa mor ddefnyddiol oedd y digwyddiad iddynt (a pham)

Rhoddodd ymatebwyr sawl rheswm am fynychu'r uwchgynadleddau. Yr un a nodwyd amlaf (gan 79% o'r ymatebwyr) oedd i gynyddu eu gwybodaeth am y pwnc. Dim ond 13% a ddywedodd eu bod eisiau cynyddu eu gwybodaeth am gael gafael ar, defnyddio neu gynhyrchu tystiolaeth a dim ond 12% eu bod wedi dod er mwyn dysgu mwy am y rhwydwaith What Works. **Roedd yn galonogol iawn gweld bod mwyafrif mawr (82%) wedi dweud bod yr uwchgynadleddau yn 'ddefnyddiol dros ben' neu 'ddefnyddiol iawn'.** Y rheswm pennaf am hyn oedd eu bod yn dysgu mwy am y pwnc. Llai na chwarter (22%) a ddywedodd eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu mwy am y rhwydwaith.

> **Roedd yn fuddiol cael clywed gan y rhai sy'n llywio polisi uniongyrchol ac i weld sut y gall dadansoddiad ystadegol gryfhau eich achos dros y gwaith rydym yn ei wneud. Mae rhwydweithio'n beth positif bob amser hefyd.** (un a oedd yn bresennol mewn uwchgynhadledd)

Dywedodd y rhan fwyaf (86%) o'r ymatebwyr eu bod yn bwriadu defnyddio'r hyn roeddent wedi'i ddysgu yn yr uwchgynhadledd i lywio eu hymarfer:

> **Mi ydw i'n awr yn gwybod llawer mwy am amrywiaeth yr ymchwil sydd ar gael a lle mae cael gafael arno yn hwylus. Mi fyddaf yn bendant yn defnyddio hyn yn y dyfodol.** (un a oedd yn bresennol mewn uwchgynhadledd)

Cafwyd enghreifftiau gan gyfweleion o sut yr oeddent wedi defnyddio tystiolaeth o ganlyniad i'r uwchgynhadledd, fel defnyddio tystiolaeth roeddent wedi clywed amdani i lywio datblygiad canolfannau amlbwrpas yn y gymuned, a defnyddio deunyddiau What Works i addysgu israddedigion. Dywedodd eraill eu bod wedi gwneud cysylltiadau defnyddiol yn yr uwchgynadleddau.

Dywedodd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd ar ôl yr uwchgynadleddau eu bod **yn gwerthfawrogi cael cyfle i ddysgu oddi wrth eraill yn y digwyddiadau,** ac yn enwedig gan rai sy'n gweithio mewn cyd-destunau ac awdurdodaethau gwahanol, gan ei fod yn beth braf clywed bod pobl eraill yn wynebu'r un heriau â hwy. Dywedodd un cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol wrthym ei bod yn gwerthfawrogi ei chysylltiad â rhwydwaith What Works a digwyddiadau fel hyn gan fod lleoliadau cymunedol yn aml yn gallu teimlo'n bell iawn oddi wrth y byd academaidd. Dywedodd fod y rhwydwaith yn ei galluogi i deimlo ei bod yn rhan o "rywbeth mwy" ac yn gallu cael gafael ar dystiolaeth berthnasol, gyfoes sy'n ddefnyddiol i'w gwaith. Gan adlewyrchu hyn efallai, dywedodd rhai cyfranogwyr y byddai wedi bod yn well ganddynt gael mwy o amser i ryngweithio a thrafod â llunwyr polisi ac ymarferwyr eraill:

> **Byddai wedi bod yn braf cael amser i sgwrsio/rhwydweithio â phawb. Roeddwn i'n teimlo y gallai'r drafodaeth ar yr hyn sydd ei angen ar ymarferwyr i roi tystiolaeth ar waith fod wedi cael mwy o amser, a hefyd y drafodaeth ar sut y gall tystiolaeth helpu'r rhai sy'n llunio polisi ac yn gwneud penderfyniadau.** (un a oedd yn bresennol mewn uwchgynhadledd)

Roedd rhai ymarferwyr yn teimlo bod rhai cyflwyniadau yn "rhy academaidd" a **thynnwyd sylw at yr angen i Ganolfannau What Works ac ymchwilwyr eraill i wneud eu gwaith yn berthnasol i ymarferwyr, er enghraifft drwy osgoi iaith rhy dechnegol i gyflwyno tystiolaeth**. Dywedodd rhai ymarferwyr yr hoffent weld Canolfannau What Works yn rhoi mwy o sylw i'r heriau ymarferol sydd ynghlwm wrth weithredu rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

# Bord gron ar gydweithredu ac ymgysylltu â'r cenhedloedd datganoledig

Mae'r adran hon yn crynhoi'r pwyntiau allweddol a wnaed yn y ford gron a drefnwyd i fyfyrio

ar y gwersi a ddysgwyd yn yr uwchgynadleddau â Chyfarwyddwyr Canolfannau What Works, ESRC, Swyddfa'r Cabinet ac eraill.

## Cydweithredu rhwng Canolfannau What Works

Nodwyd fod cryn dipyn o gydweithredu'n digwydd eisoes rhwng Canolfannau What Works, sy'n amrywio o gydweithio anffurfiol yn seiliedig ar 'wneud pethau gyda'n gilydd' i gysoni iaith yn gysylltiedig â thystiolaeth, i ddulliau mwy manwl sy'n golygu newid yr hyn rydych yn ei wneud o ganlyniad i weithio ag eraill. Rhoddir enghreifftiau o'r dulliau gwahanol hyn isod o dan "Sut?". Roedd cytundeb cyffredinol fod cydweithredu – mewn gwahanol ffyrdd – yn werth chweil, ond nodwyd fod angen diben pendant a rhaid cael digon o adnoddau.

### Pam cydweithredu?

Y prif ffyrdd o gydweithredu ymhlith Canolfannau What Works a drafodwyd oedd: cyfuno adnoddau, gwneud y gorau o ddysgu, a gwella cyrhaeddiad.

Roedd awgrymiadau ar gyfer **cyfuno adnoddau** yn cynnwys rhannu data a chynnal treialon ar y cyd. Gallai hyn helpu i osgoi 'halogiad', er enghraifft rhwng gwahanol gynlluniau sy'n cael eu hyrwyddo gan Ganolfannau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc. Gall treialon ar y cyd ddangos hefyd lle mae ymyriadau yn cyflawni canlyniadau lluosog neu os ydynt yn cael effeithiau rhyngweithio negyddol (er enghraifft, gwella cyrhaeddiad ond yn lleihau llesiant).

Mae cydweithredu hefyd yn ffordd i **wneud y gorau o ddysgu.** Awgrymwyd fod Canolfannau newydd yn elwa ar gyngor ymarferol gan Ganolfannau mwy sefydledig a bod cyfle i rannu rhwydweithiau yn ogystal â gwybodaeth. Mae gan sawl Canolfan rwydweithiau a dealltwriaeth o'r blaenoriaethau polisi yn y cenhedloedd datganoledig neu ddinasoedd/rhanbarthau penodol yn Lloegr, a byddai rhannu'r rhain yn fuddiol.

Yn olaf, gall cydweithredu **wella cyrhaeddiad** Canolfannau What Works drwy ei gwneud yn haws i gynulleidfaoedd gael gafael ar dystiolaeth o sawl Canolfan mewn ffyrdd sydd uwchlaw meddylfryd ynysig broffesiynol a chysylltiadau dwyochrog Canolfannau ag adrannau llywodraeth.

## Ymgysylltu â'r cenhedloedd datganoledig a dulliau wedi'u seilio ar le

Fel y nodwyd uchod, mae sawl Canolfan yn gweithio mewn meysydd penodol – naill ai oherwydd eu bod yn cael eu hariannu gan lywodraethau datganoledig neu am eu bod wedi datblygu partneriaethau ag ardaloedd neu ranbarthau. O ganlyniad, mae gan y rhwydwaith gyd-ddiddordeb mewn dulliau seiliedig ar le i ddangos defnydd o dystiolaeth.

Mae rhanbarthau a chenhedloedd gwahanol y DU yn wynebu heriau economaidd a chymdeithasol cyffredin sy'n golygu bod y dystiolaeth a gynhyrchir gan Ganolfannau What Works mewn un rhan o'r DU yn debygol o fod yn ddefnyddiol i ardaloedd eraill. Mae lefel y diddordeb yn uwchgynadleddau What Works- a oedd wedi denu dros 300 o gyfranogwyr, llawer ohonynt nad oedd yn gwybod am Ganolfannau What Works cyn y digwyddiadau - yn

brawf o hyn ac mae'n dangos bod galw yn y cenhedloedd datganoledig am dystiolaeth gan rwydwaith What Works.

Mae buddiannau posibl hefyd i Ganolfannau What Works drwy ymgysylltu â gwahanol rannau o'r DU. Yn fwyaf penodol gall fod yn gyfle i roi prawf ar ymarferoldeb tystiolaeth mewn gwahanol gyd-destunau ac i fanteisio ar wahaniaethau fel ffynhonnell dadansoddiad cymharol a threialon. Ac, fel y nodwyd uchod, mae potensial i Ganolfannau What Works i rannu gwybodaeth, cysylltiadau a rhwydweithiau lleol ei gilydd.

# Casgliadau a chamau nesaf a awgrymir

Roedd prosiect y Gronfa Strategol yn ymdrech i hwyluso cydweithrediad rhwng Canolfannau What Works a chynyddu cwmpas y rhwydwaith yn y cenhedloedd datganoledig. Roedd yr uwchgynadleddau yn cynnwys naw Canolfan What Works ac roeddent wedi cyrraedd 330 o gyfranogwyr o lywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau ymchwil, ac elusennau yn y cenhedloedd datganoledig. Cafodd yr uwchgynadleddau dderbyniad positif gan Ganolfannau What Works a chynulleidfaoedd yn y cenhedloedd datganoledig. Roeddent yn gyfle i Ganolfannau What Works ymgysylltu â'r cenhedloedd datganoledig ac i gryfhau rhai o'r cysylltiadau rhwng Canolfannau.

Mae ein gwerthusiad o'r prosiect hwn a'r myfyrio arno yn amlygu tri chasgliad allweddol y gobeithir y bydd yn cael eu defnyddio i lywio buddsoddiad yn y rhwydwaith yn y dyfodol.

## Buddiannau gweithio â sefydliadau lleol i ehangu cyrhaeddiad Canolfannau What Works

Drwy weithio â sefydliadau lleol (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Campbell Collaboration ym Mhrifysgol Queen's Belfast, a What Works yr Alban), roedd yr uwchgynadleddau yn gallu denu cynulleidfa eang o blith eu cysylltiadau lleol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn anghyfarwydd â rhwydwaith ehangach What Works. Roedd hwn yn gyfle i Ganolfannau What Works eraill i ymestyn at gynulleidfaoedd newydd ac i ddangos i Ganolfannau o'r tu allan i Lundain beth yw buddiannau defnyddio cysylltiadau rhwng Canolfannau What Works eraill a llunwyr polisi ac ymarferwyr lleol. Roedd gan y tri sefydliad a gynhaliodd uwchgynhadledd rwydweithiau cryf o ymarferwyr, ymchwilwyr, a llunwyr polisi, ac roedd yr uwchgynadleddau yn gweithredu fel pont effeithiol rhwng y cymunedau hyn.

Gwelwyd hefyd fod cyfuno cyfraniadau siaradwyr lleol – a oedd yn dod o rwydweithiau'r Ganolfan a oedd yn trefnu – gyda chyfraniadau gan Ganolfannau What Works yn helpu i sicrhau bod tystiolaeth yn berthnasol i flaenoriaethau a chyd-destun polisi'r cenhedloedd

datganoledig.

## Nid cyllid yw'r unig rwystr rhag cydweithredu neu ymgysylltu â'r cenhedloedd datganoledig

Er bod y rhan fwyaf o Ganolfannau What Works yn gallu gweithio ar lefel DU gyfan, dim ond nifer fach sy'n gweithio ar draws y cenhedloedd datganoledig yn rheolaidd. Roedd y prosiect hwn yn ymdrechu i roi sylw i un o'r rhwystrau rhag gweithio yn y cenhedloedd datganoledig drwy ddarparu cronfa fechan o gyllid i'r Canolfannau i gymryd rhan yn yr uwchgynadleddau. Cafodd Canolfannau gynnig ad-daliad am eu hamser paratoi ac am fynychu'r digwyddiad, ynghyd â chostau teithio a threuliau eraill. Fodd bynnag, gwrthododd rhai gymryd rhan yn yr uwchgynadleddau, ac nid oedd eraill a gymerodd ran wedi anfonebu am eu hamser. Efallai bod y swm a oedd yn cael ei gynnig mor fach fel nad oeddent yn teimlo ei fod yn werth ei hawlio, bod Canolfannau yn gallu ariannu cysylltiad cymharol gyfyngedig â phrosiectau drostynt eu hunain, neu fod eu modelau cyllido eisoes yn talu am waith o'r fath. Mae hyn yn awgrymu efallai nad yw symiau bach o gyllid ychwanegol yn ddigon (neu'n angenrheidiol hyd yn oed) i hwyluso ymgysylltiad â'r cenhedloedd datganoledig, oni bai eu bod yn adeiladu ar weithgarwch sy'n bod eisoes neu yn yr arfaeth. Ymddengys mai'r prif rwystr yw bod Canolfannau eisoes yn gweithio ar gapasiti llawn a'i bod yn anodd rhyddhau staff ar gyfer cynlluniau cymharol fach fel yr uwchgynadleddau.

## Heriau wrth geisio annog dysgu a rennir ar draws y cenhedloedd datganoledig

Roeddem yn gobeithio annog dysgu traws-awdurdodaeth yn sgil y prosiect drwy wahodd dau gynrychiolydd o bob cenedl ddatganoledig i fod yn bresennol ym mhob uwchgynhadledd. Roedd yr uwchgynhadledd yn Glasgow ar ganlyniadau plant a phobl ifanc yn canolbwyntio ar ddulliau seiliedig ar le ac roedd gan y sefydliad oedd yn ei threfnu gysylltiadau da yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr a allai siarad ar y pwnc, ac felly roedd y siaradwyr yn ogystal â'r cyfranogwyr yn dod o'r pedair cenedl. Fodd bynnag, nid dyma a ddigwyddodd yn y digwyddiadau eraill, lle nad oedd llawer neu mewn rhai achosion ddim cynrychiolwyr o'r cenhedloedd datganoledig eraill. Mae hyn yn dangos y pwysau amser sydd ar lunwyr polisi ac ymarferwyr sy'n ei chael yn anodd i deithio i ddigwyddiadau y tu allan i'w gwledydd eu hunain. Er gwaethaf yr anawsterau ymarferol hyn, mae diddordeb mewn dysgu traws-awdurdodaeth a byddai'n werthfawr petai rhwydwaith What Works yn arbrofi â dulliau eraill o'i annog a'i hwyluso.

## Y Camau nesaf

Isod rydym yn troi at ffrwyth trafodaethau bord gron What Works i awgrymu rhai camau nesaf a allai helpu i gynyddu cydweithrediad ac ymgysylltiad â'r cenhedloedd datganoledig.

Gallai Canolfannau What Works **gydweithredu ymhellach** drwy:

- Adeiladu pensaernïaeth ddata gyffredin
- Rhannu gofod swyddfa, fel yr Evidence Quarter, sy'n cydnabod nad yw cydweithredu'n digwydd drwy ddamwain yn aml, ac y gellir ei feithrin a'i ariannu mewn gofodau a rennir.
- Canfod ffyrdd o uno gwaith yn seiliedig ar ganlyniadau a rennir, llwybr bywyd, neu ddulliau seiliedig ar le (gweler isod).
- Mapio cynhwysfawr o nodau, gweithgarwch, cynulleidfaoedd y Canolfannau What Works, i ganfod bylchau yn y dystiolaeth y gellid eu llenwi drwy greu Canolfannau What Works newydd ac ymestyn cylch gwaith y Canolfannau presennol, gwell dealltwriaeth o werth y rhwydwaith presennol, a chanfod cyfleoedd pellach i gydweithredu.

Gellid annog **ymgysylltu gwell â'r cenhedloedd datganoledig a lleoedd** drwy:

- Canolfannau What Works yn ymwreiddio swyddi gyda sefydliadau partner credadwy, sefydledig.
- Buddsoddi i feithrin perthnasoedd rhwng What Works a llunwyr polisi ac ymarferwyr yn y cenhedloedd datganoledig ac ardaloedd ledled y DU, gyda phwyslais ar sut y gall gwaith Canolfannau helpu mannau penodol.
- Cynyddu ymgysylltiad Canolfannau What Works â rhwydweithiau presennol mewn llywodraethau ac ardaloedd datganoledig.
- Mwy o gyfeiriadau at dystiolaeth What Works a gwneud cysylltiadau rhwng Canolfannau What Works eraill a llunwyr polisi ac ymarferwyr yn y cenhedloedd datganoledig a mannau eraill. Gall hyn hefyd olygu dod o hyd i ffordd i alluogi Canolfannau What Works i rannu cysylltiadau mewn gwahanol ardaloedd.
- Creu canolfan ddigidol lle mae gwybodaeth am yr holl Ganolfannau What Works ar gael ar safle 'niwtral' sy'n hygyrch i ac y gall llunwyr polisi ac ymarferwyr ym mhedair cenedl y DU ymddiried ynddi, ac sy'n cael ei hyrwyddo gan y rhwydwaith.

# Atodiad: Disgrifiad o'r Uwchgynadleddau

## Yr uwchgynhadledd digartrefedd ieuenctid

**Dyddiad:** 13 Chwefror 2019

**Lleoliad:** Belfast

### Cyd-destun

Roedd yr uwchgynhadledd gyntaf hon, a oedd yng ngofal Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, yn canolbwyntio ar ddigartrefedd ieuenctid am nifer o resymau. Ar y pryd, roedd llawer o sylw'n cael ei roi i heriau digartrefedd yng Nghymru, gyda'r ymgyrch Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd ymhlith Ieuenctid yng Nghymru yn cael ei chynnal ar y pryd, cyhoeddiad Prif Weinidog Cymru ar y pryd ar sut y byddai Llywodraeth Cymru yn gwario buddsoddiad o £10 miliwn i helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd erbyn 2027, ac awdurdodau lleol yn datblygu eu strategaethau atal digartrefedd, ac a ddilynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Roedd gan sawl Canolfan What Works dystiolaeth ddiweddar yn ymwneud â digartrefedd ieuenctid ac roeddent yn credu ei bod yn berthnasol i lunwyr polisi ac ymarferwyr yng Nghymru.

### Fformat a siaradwyr

Roedd yr uwchgynhadledd diwrnod cyfan hon yn cynnwys cyflwyniadau gan arbenigwyr lleol a rhyngwladol a Chanolfannau What Works, yn ogystal â thrafodaethau grŵp wedi'u hwyluso. Cafodd y cynrychiolwyr eu gwahodd i ofyn cwestiynau ar ddiwedd pob cyflwyniad. Daeth y siaradwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Llamau
- Canadian Observatory on Homelessness a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
- Y Ganolfan Effaith Digartrefedd
- What Works – Llesiant

### Cyfranogwyr

Roedd tua 60 o bobl yn bresennol yn yr uwchgynhadledd hon o tua 25 o fudiadau gwahanol. Roeddent yn cynnwys cynrychiolwyr o 16 (allan o 22) o awdurdodau lleol Cymru yn ogystal ag elusennau digartrefedd, cymdeithasau tai (gan gynnwys pobl ifanc sy'n gysylltiedig â chymdeithasau tai) a byrddau iechyd.

# Yr uwchgynhadledd blynyddoedd cynnar

**Dyddiad:** 13 Chwefror 2019

**Lleoliad:** Belfast

## Cyd-destun

Roedd yr uwchgynhadledd hon yn canolbwyntio ar flynyddoedd cynnar datblygiad plant. Ar adeg yr uwchgynhadledd roedd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cynhyrchu Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth Cymorth Rhianta, a fyddai'n amlinellu dulliau a pholisi'r llywodraeth ar gyfer blynyddoedd cynnar. Felly, roedd yr uwchgynhadledd hon ar flynyddoedd cynnar yn amserol i'w helpu i lywio'r strategaethau hyn.

## Fformat a siaradwyr

Roedd yr uwchgynhadledd diwrnod cyfan hon yn cynnwys cyflwyniadau gan ymarferwyr lleol a rhyngwladol a Chanolfannau What Works, yn ogystal â thrafodaethau grŵp wedi'u hwyluso i lywio ymchwil y dyfodol ar flynyddoedd cynnar. Cafodd y cynrychiolwyr eu gwahodd i ofyn cwestiynau ar ddiwedd pob cyflwyniad. Daeth y siaradwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Y Sefydliad Gwaddol Addysgol
- Prifysgol Ulster
- Cychwyn Cadarn
- NICE
- Campbell Collaboration
- Prifysgol Queen's Belfast
- Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar

## Cyfranogwyr

Roedd 80 o gyfranogwyr o 22 o sefydliadau yn bresennol, ac a oedd yn cynrychioli adrannau'r llywodraeth, y sector gwirfoddol a chymunedol, llywodraeth leol, ymddiriedolaethau iechyd a gofal cymdeithasol a phleidiau gwleidyddol.

Cafodd yr uwchgynhadledd ei ffilmio a gellir gweld y fideo yn **http://bit.ly/wwsummitearlyyears**.

# Plant a phobl ifanc: defnyddio ymchwil a thystiolaeth i wireddu newid

**Dyddiad:** 30 Ebrill 2019

**Lleoliad:** Glasgow

## Cyd-destun

Roedd yr uwchgynhadledd hon yn rhannu'r syniadau a'r dysgu diweddaraf ar yr hyn sy'n gweithio mewn dulliau seiliedig ar le i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Roedd hefyd yn edrych sut y gallwn ddefnyddio tystiolaeth i helpu i wireddu newid a'r ffordd orau o gasglu a chyflwyno'r dystiolaeth honno. Cafodd y themâu ei dewis gan fod lle yn awr yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ym mhob un o bedair awdurdodaeth y DU fel ffocws i ymyriadau: os yw tlodi wedi'i grynhoi'n ofodol yna felly y dylai'r ymateb i dlodi fod hefyd. Un maes lle mae hyn wedi bod yn amlwg iawn yw darpariaeth gwasanaethau i blant mewn ardaloedd ag amddifadedd cymdeithasol uchel. Wedi'u dylanwadu gan lwyddiant prosiectau plant eraill sy'n seiliedig ar ardaloedd, yn benodol yr Harlem Children's Zone, mae llawer o ardaloedd yn awr yn datblygu eu dehongliad eu hunain. Roedd yr uwchgynhadledd yn ymdrech i ddefnyddio enghreifftiau o hyn, o Fanceinion, lle mae'r awdurdod lleol wedi gweithio ag Achub y Plant i ddatblygu a sefydlu parthau plant, i Felfast, lle mae Prosiectau Cymunedol Shankill a Colin wedi sefydlu parthau plant, i Gymru, lle mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu prosiectau arloesol Plant yn Gyntaf, ac i Glasgow, lle mae Cymdogaethau Plant yn cael eu datblygu.

## Fformat a siaradwyr

Yng ngofal What Works yr Alban, roedd yr uwchgynhadledd diwrnod cyfan hon yn cynnwys cyflwyniadau gan Ganolfannau What Works, academyddion, a llunwyr polisi ac ymarferwyr o bob un o wledydd DU, yn ogystal â thrafodaethau grŵp wedi'u hwyluso i lywio ymchwil y dyfodol ar flynyddoedd cynnar. Cafodd y cynrychiolwyr eu gwahodd i ofyn cwestiynau ar ddiwedd pob cyflwyniad. Hefyd ymunodd plant o ysgol gynradd leol sy'n gysylltiedig â phrosiect ymchwil gyda Chymdogaethau Plant yr Alban â'r uwchgynhadledd amser cinio i siarad â'r cynrychiolwyr. Daeth y siaradwyr o'r sefydliadau canlynol:

- What Works yr Alban
- Cymdogaethau Plant yr Alban
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
- Plant yn Gyntaf, Cymru
- Ysgol Gynradd Millbrook, Casnewydd
- Colin Early Intervention Community, Belfast
- Prifysgol Manceinion
- Prifysgol Queen's, Belfast

- Prifysgol Sheffield Hallam
- Parth Plant a Phobl Ifanc Shankill, Belfast

## Cyfranogwyr

Roedd tua 65 o bobl yn bresennol o gynghorau lleol, prifysgolion, elusennau, cyllidwyr, a Llywodraeth yr Alban.

# Yr Uwchgynhadledd iechyd meddwl ieuenctid

**Dyddiad:** 14 Mai 2019

**Lleoliad:** Belfast

## Cyd-destun

Mae iechyd meddwl yn fater iechyd y cyhoedd pwysig yng Ngogledd Iwerddon a dyma'r un achos mwyaf o salwch ac anabledd. Mae lefelau uwch o salwch meddwl yng Ngogledd Iwerddon nag yn unrhyw ranbarth arall yn y DU ac mae gan 1 o bob 5 oedolyn gyflwr iechyd meddwl ar unrhyw adeg. Amcangyfrifir fod tua 45,000 o blant a phobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon ag angen iechyd meddwl ar unrhyw adeg ac mae dros 20% o bobl ifanc yn dioddef problemau iechyd meddwl sylweddol erbyn iddynt gyrraedd 18 oed. Mae diwygiadau i'r gwasanaeth iechyd meddwl yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y degawd diwethaf wedi'i lywio gan Adolygiad Bamford. Bu dau Gynllun Gweithredu (2009-11 a 2012-15), ac yn ddiweddar bu galwadau am strategaeth iechyd meddwl ddeng mlynedd newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon ac am hyrwyddwyr iechyd meddwl i hyrwyddo, arwain a chydlynu gwaith ar draws adrannau llywodraeth Gogledd Iwerddon. Roedd yr uwchgynhadledd hon yn rhoi sylw i'r mater amserol hwn.

## Fformat a siaradwyr

Yng ngofal Prifysgol Queen's Belfast, roedd yr uwchgynhadledd diwrnod cyfan hon yn cynnwys siaradwyr wedi'u grwpio o dan dair thema: achosion problemau iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc, atal, a thriniaethau a gwasanaethau. Gwahoddwyd cwestiynau o'r llawr ar ôl y cyflwyniad ar bob thema, a daeth y diwrnod i ben gyda thrafodaeth panel a oedd yn cynnwys yr holl siaradwyr, a oedd yn rhannu eu hargraffiadau o'r diwrnod a gofynnwyd cwestiynau wedi'u paratoi iddynt yn ogystal â chwestiynau o'r llawr. Roedd y siaradwyr yn cynrychioli'r sefydliadau canlynol

- Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon
- Prifysgol Queen's Belfast
- Barnardo's Gogledd Iwerddon
- What Works – Llesiant ac Universities UK
- Canolfan What Works ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant
- NICE

**Cyfranogwyr**

Roedd tua 100 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad, o 30 o sefydliadau a oedd yn cynrychioli adrannau'r llywodraeth, prifysgolion a cholegau, y sector gwirfoddol a chymunedol, llywodraeth leol, ymddiriedolaethau iechyd a gofal cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth a phleidiau gwleidyddol.

Cafodd yr uwchgynhadledd ei ffilmio a gellir gweld y fideo yn **http://bit.ly/wwusummitmentalhealth.**

# Perfformiad economaidd lleol

**Dyddiad:** 10 Mehefin 2019

**Lleoliad:** Caerdydd

## Cyd-destun

Thema'r uwchgynhadledd hon oedd perfformiad economaidd lleol. Mae rhan o Rwydwaith What Works a sefydliadau ymchwil eraill yn gweithio'n uniongyrchol ar feysydd sy'n berthnasol i'r heriau economaidd sy'n wynebu Cymru. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn ymateb i flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru, ac mae Canolfan What Works ar gyfer Twf Economaidd lleol yn gweithio ag ardaloedd ledled y DU i wella sut mae Strategaethau Diwydiannol Lleol yn cael eu gweithredu ac ar weithrediad cyffredinol Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Yn ogystal â'r Rhwydwaith What Works, mae'r RSA yn flaenllaw yn yr ymchwil i dwf cynhwysol, ac mae'r Productivity Insights Network yn cynnig syniadau newydd ar y pos cynhyrchiant.

Nod yr uwchgynhadledd hon oedd cyflwyno'r gwaith sy'n cael ei wneud ac ystyried ei oblygiadau i Gymru. O ganlyniad, un o'r nodau oedd cyflwyno tystiolaeth What Works i gynulleidfa newydd, cyfrannu at feddwl Llywodraeth Cymru ar gynhrychiant, yr economi sylfaenol a gwella capasiti sefydliadol, ac ymateb i'r heriau allweddol sy'n wynebu rhanddeiliaid yn economi Cymru.

## Fformat a siaradwyr

Cafwyd cyflwyniadau gan y sefydliadau canlynol, ac fe'u dilynwyd gan sesiynau holi ac ateb:

- What Works – Twf Economaidd Lleol
- Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Prifysgol Cymru a'r Productivity Insights Network
- RSA

Dilynwyd hyn gan drafodaeth panel ar y goblygiadau i Gymru, gan gynnwys myfyrdodau byr gan y canlynol a chyfle i'r cyfranogwyr ofyn cwestiynau:

- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

- What Works – Twf Economaidd Lleol

## Cyfranogwyr

Roedd tua 25 o gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol Cymru, prifysgolion a mudiadau trydydd sector yn bresennol.

# Bord gron What Works

**Dyddiad:** 4 Hydref 2019

**Lleoliad:** Llundain

## Cyd-destun

O ystyried y pethau gwerthfawr a ddysgwyd yn sgil y pum uwchgynhadledd gyntaf, penderfynwyd y byddai'n hynod o ddefnyddiol i ddefnyddio'r chweched uwchgynhadledd i gyflwyno ein canfyddiadau i Ganolfannau What Works a rhanddeiliaid allweddol perthnasol, a'u defnyddio fel anogaeth ar gyfer trafodaethau am ymgysylltiad Canolfannau What Works â'r cenhedloedd datganoledig a'r cydweithrediad rhwng Canolfannau.

## Fformat a siaradwyr

Roedd y chweched uwchgynhadledd hon yng ngofal y Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol ac o dan Gadeiryddiaeth yr Athro Jennifer Rubin a'r Athro Alison Park (ESRC). Fe'i cynhaliwyd ar ffurf bord gron a bu'n trafod y canlynol:

- Safbwyntiau'r ESRC a Chynghorydd Cenedlaethol What Works ar gydweithredu ac ymgysylltu â'r cenhedloedd datganoledig
- Cyflwyniad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ganfyddiadau'r prosiect hwn
- Trafodaethau wedi'u hwyluso ar gydweithredu ac ymgysylltu â'r cenhedloedd datganoledig.

## Cyfranogwyr

Roedd 25 o gynrychiolwyr o Ganolfannau What Works, yr ESRC, Swyddfa'r Cabinet, a'r llywodraethau datganoledig yn bresennol.

Cafodd sylwadau byr eu ffilmio yn yr uwchgynhadledd hon a gellir eu gweld yn: **http://bit.ly/wwroundtablejrubin**, **http://bit.ly/wwroundtablepmatthews**, **http://bit.ly/wwroundtabledhalpern**, a **http://bit.ly/wwroundtablejcasebourne**.

## Manylion am yr Awduron

Mae **Emma Taylor-Collins** yn Uwch Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae **Dan Bristow** yn Gyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Am ragor o fanylion cysylltwch â:

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
**info@wcpp.org.uk**

OGL This report is licensed under the terms of the Open Government License

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru